# Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17
# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2017
Cyfeirnod y ddogfen: 124A2017-18



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Sara-Jane Byrne a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 4

Mae'r Cyngor yn debygol o fodloni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus, ar yr amod ei fod yn ymateb mewn modd adeiladol ac amserol i'n hargymhellion statudol. 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 5

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17 7

## Atodiadau

Atodiad 1 – statws yr adroddiad hwn 14

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 15

Atodiad 3 – argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17 18

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17

1 Wrth bennu ehangder y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd y cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd yn sgil archwiliadau ac arolygiadau yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys mecanweithiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) ei hun i adolygu a gwerthuso. Yn ystod 2016-17, cynhaliom waith asesu gwelliant ym mhob cyngor o dan dair thema: llywodraethu, y defnydd o adnoddau, a chynllunio ac adrodd ar welliannau. Mewn rhai cynghorau, ategwyd y gwaith hwn drwy gynnal archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016-17.

2 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, yn Nangosyn 3.

## Mae'n debygol y bydd y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol yn gysylltiedig â gwelliant parhaus, ar yr amod ei fod yn ymateb mewn modd adeiladol ac amserol i'n hargymhellion statudol

3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a hynny yn unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2017-18, ar yr amod ei fod yn ymateb mewn modd adeiladol ac amserol i'n hargymhellion statudol.

4 Yn ein hadroddiad ym mis Mehefin 2017, 'Safon Ansawdd Tai Cymru' cyflwynwyd tri argymhelliad statudol gennym i'r Cyngor, fel y nodir yn Nangosyn 1 isod. Cawsom ddatganiad gweithredu gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor - Cymunedau ar 19 Gorffennaf 2017, sydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet. Gyda hyn, byddwn yn mynd ar drywydd unrhyw gynnydd yn rhan o'n gwaith archwilio parhaus o fewn y Cyngor.

5 Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd gennym yn 2015-16, mae ymchwiliadau mewnol yn parhau mewn perthynas â'r materion sy'n gysylltiedig â rhai uwch swyddogion.O ganlyniad i hyn, ceir nifer o swyddi interim neu dros dro ar lefel yr uwch reolwyr ac fe geir elfen o ansicrwydd o hyd o fewn y Cyngor nes bo'r ymchwiliadau mewnol wedi'u cwblhau.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

6 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor â'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

7 Nodir isod yr argymhellion ffurfiol a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Mae'n rhaid i awdurdodau baratoi ymateb cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn.

8 Mae nifer o gynigion gwella hefyd wedi cael eu cynnwys, ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

## Dangosyn 1: argymhellion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn.

### Argymhellion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn

Dylai'r Cyngor gymryd camau brys i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) erbyn 2020. Dylai:

A1 Ddatblygu rhaglen ariannol a gweithredol gynhwysfawr a throsfwaol erbyn mis Medi 2017 fydd yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni SATC erbyn 2020. Dylai'r rhaglen hon:

- bennu cwmpas llawn y buddsoddiad sydd ei angen yn stoc tai'r Cyngor, ar sail gwybodaeth fanwl gywir, gynhwysfawr a chyfredol am gyflwr y stoc;
- nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni'r canlynol erbyn mis Mawrth 2018:
  - adolygu ei drefniadau caffael er mwyn sicrhau gwerth am arian;
  - darparu gwybodaeth glir a thryloyw i aelodau a thenantiaid am sefyllfa bresennol y rhaglen, rhagweld dyddiadau cwblhau cywir ac ymrwymo iddynt â rhanddeiliaid; a
  - sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r rhaglen erbyn 2020.
- cynnwys cerrig milltir clir a mesuradwy a mesurau perfformiad perthnasol ar gyfer cyflawni'r rhaglen hyd 2020; a
- nodi'r cyfrifoldebau a'r trefniadau ar gyfer rheoli, llywodraethu ac atebolrwydd y rhaglen fel bod modd cymryd camau unioni ar frys os ceir unrhyw lithriant pellach, ac fel bod modd dwyn y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen i gyfrif ar lefelau penderfynu priodol.

A2 Ei sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel landlord, drwy sicrhau bod:

- tystysgrif diogelwch nwy dilys ar gyfer pob eiddo, neu fod trefniadau diffyg cydymffurfio'r Cyngor wedi'u cymhwyso'n llawn; a
- threfniadau cadarn ar waith i gynnal arolygon asbestos a chofnodi canlyniadau'r arolygon hynny.

A3 Sicrhau bod ganddo gapasiti rheoli prosiect digonol i gyflawni rhaglen SATC y Cyngor yn effeithiol erbyn 2020.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

## Dangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu a adroddwyd yn ystod 2016-17

Disgrifiad o'r gwaith a gyflawnwyd ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, lle bo hynny'n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu** | | | |
| Chwefror 2017 | **Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau**<br>Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau. | Bu ymagwedd y Cyngor at newid gwasanaethau yn gymesur â graddfa'r newidiadau y mae wedi'u cyflwyno hyd yma, ac mae'n atgyfnerthu ei drefniadau i baratoi am newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol a allai fod o natur fwy sylweddol:<br>• mae gan y Cyngor gyfres glir o egwyddorion ar gyfer penderfynu ynghylch newidiadau i wasanaethau sy'n cefnogi ei weledigaeth bresennol, ond mae'n cydnabod bod angen adolygu ei drefniadau strategol;<br>• mae'r Cyngor yn parhau i atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd, a gallai'r rhain fod o gymorth i newid gwasanaethau mewn modd effeithiol yn y dyfodol;<br>• mae'r arfarniadau o opsiynau yn gadarn ar y cyfan, ac yn gwella, ond mae angen mwy o gysondeb yn ansawdd yr wybodaeth sydd ynddynt;<br>• bu trefniadau'r Cyngor i gynnwys rhanddeiliaid wrth newid gwasanaethau yn effeithiol;<br>• mae'r Cyngor yn monitro effaith newidiadau i wasanaethau ond nid yw ei drefniadau'n systematig nac yn dryloyw; ac<br>• yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu a phenderfynu ac wedi ymateb mewn modd cadarnhaol i'n hadroddiadau archwilio. | Gellid atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newid gwasanaethau drwy:<br>C1 Gyflwyno trefniant mwy systematig a thryloyw ar gyfer monitro effaith newidiadau i wasanaethau.<br>C2 Dangos yn gliriach mewn adroddiadau sut yr ystyriwyd adborth o ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori wrth ddatblygu cynigion i newid gwasanaethau. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Defnydd o adnoddau** | | | |
| Tachwedd 2016 | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16**<br>Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau.<br>• Yr ydym yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.<br>• Hyd yma, ni nodwyd unrhyw faterion o bwys yn ein gwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 neu ar systemau ariannol allweddol. | C1 Bod y Cyngor yn adolygu'r modd y mae'r System Asedau Logotech yn cyfrifo dibrisiant ar gyfer asedau a gaiff eu hailbrisio, oherwydd gwelwyd wrth ein gwaith fod asedau wedi'u hailbrisio yn cael eu dibrisio flwyddyn yn rhy fuan yn sgil y defnydd anghywir o 'Oes Economaidd Ddefnyddiol' ar ôl ailbrisio.<br>C2 Dylai balansau dyledwyr a chredydwyr gael eu dileu a'u hepgor o'r balansau a ddygwyd ymlaen. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mis Mawrth 2017 | **Cynllunio arbedion**<br>Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer arbedion ariannol, gan gynnwys i ba raddau y mae'n llwyddo i sicrhau'r arbedion angenrheidiol ac a oes ganddo ddulliau cadarn o gynllunio, rheoli a sicrhau arbedion i'r gyllideb, ar gyflymder sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol. | Mae gan y Cyngor ymagwedd effeithiol at gynllunio arbedion, ac mae'r ymagwedd honno'n gwella. Mae hyn yn cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol:<br>• mae'r Cyngor wedi adrodd iddo sicrhau 96% o'r arbedion a gynlluniwyd ganddo ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn, a gall ddangos bod arbedion unigol wedi'u cyflawni;<br>• mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol, ac er bod gan y Cyngor gynlluniau arbed tra ystyriol, mae rhai cynigion arbed heb eu datblygu'n ddigonol wrth gytuno ar y gyllideb; ac<br>• mae gan y Cyngor gynlluniau arbed manwl, ac mae'n rhagweld y bydd 96% o'i gynllun arbedion ar gyfer 2016-17 yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. | Atgyfnerthu trefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod cynlluniau arbed wedi'u seilio ar achosion busnes cadarn. |

<table>
<tr><th>Dyddiad cyhoeddi</th><th>Disgrifiad byr</th><th>Casgliadau</th><th>Cynigion ar gyfer gwella</th></tr>
<tr><td colspan="4">Archwiliad perfformiad lleol yn seiliedig ar risg</td></tr>
<tr><td>Mehefin 2017</td><td>Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)<br>Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i'w alluogi i fodloni SATC erbyn 2020.</td><td>Mae'r mwyafrif o gartrefi tenantiaid yn parhau i fod yn is na SATC, gan fod trefniadau rheoli'r rhaglen yn parhau i fod yn aneffeithlon ac aneffeithiol, ac mae'r Cyngor yn annhebygol o gyrraedd y Safon erbyn 2020.<ul><li>mae'r mwyafrif o gartrefi tenantiaid yn parhau i fod yn is na SATC, ac mae cynnydd y Cyngor tuag at gyrraedd y Safon erbyn 2020 yn annigonol;</li><li>ceir gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel landlord;</li><li>nid yw'r Cyngor wedi bodloni holl ofynion sylfaenol polisi SATC gan nad oes ganddo raglen gynhwysfawr sydd yn esbonio wrth randdeiliaid sut y bydd yn bodloni'r Safon erbyn 2020;</li><li>nid oes gan y Cyngor wybodaeth ddigonol am gyflwr y stoc, na gwybodaeth gyfredol am hynny, i'w alluogi i lunio ei raglen ar gyfer buddsoddi mewn tai;</li><li>mae gan y Cyngor ystod o fecanweithiau i ymgysylltu â thenantiaid ynghylch SATC, ond mae'r rhain yn aneffeithiol ac nid ydynt yn cael eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio nac i ysgogi perfformiad;</li><li>ni all y Cyngor fod yn siŵr ei fod yn sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei waith yn gysylltiedig â SATC; ac</li><li>mae'r trefniadau i oruchwylio, herio, monitro a chraffu ar gynnydd y rhaglen SATC yn wan, ac nid ydynt yn rhoi trosolwg ddigonol o'r rhaglen yn ei chyfanrwydd.</li></ul></td><td>Argymhellwyd y canlynol:<br>Dylai'r Cyngor gymryd camau brys i gyflawni SATC erbyn 2020. Dylai:<br>A1 Ddatblygu rhaglen ariannol a gweithredol gynhwysfawr a throsfwaol erbyn mis Medi 2017 fydd yn nodi sut y bydd y Cyngor n cyflawni SATC erbyn 2020. Dylai'r rhaglen hon:<ul><li>sefydlu cwmpas llawn y buddsoddiad sydd ei angen yn stoc tai'r Cyngor ar sail gwybodaeth fanwl gywir, gynhwysfawr a chyfredol am gyflwr y stoc;</li><li>nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni'r canlynol erbyn mis Mawrth 2018:<ul><li>– adolygu ei drefniadau caffael er mwyn sicrhau gwerth am arian;</li><li>– darparu gwybodaeth glir a thryloyw i aelodau a thenantiaid am sefyllfa bresennol y rhaglen, rhagweld dyddiadau cwblhau cywir ac ymrwymo iddynt â rhanddeiliaid; a</li><li>– sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen erbyn 2020.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | • cynnwys cerrig milltir clir a mesuradwy a mesurau perfformiad perthnasol ar gyfer cyflawni'r rhaglen hyd 2020; a<br>• nodi'r cyfrifoldebau a'r trefniadau rheoli, llywodraethu ac atebolrwydd y rhaglen, fel bod modd cymryd camau unioni ar frys os ceir unrhyw lithriant pellach, ac fel bod modd dwyn y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen i gyfrif ar lefelau penderfynu priodol.<br>A2 Ei sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel landlord, drwy sicrhau bod:<br>• tystysgrif diogelwch nwy dilys ar gyfer pob eiddo, neu fod trefniadau diffyg cydymffurfio'r Cyngor wedi'u cymhwyso'n llawn; a<br>• threfniadau cadarn ar waith i gynnal arolygon asbestos a chofnodi canlyniadau'r arolygon hynny.<br>A3 Sicrhau bod ganddo gapasiti rheoli prosiect digonol i gyflawni rhaglen SATC y Cyngor yn effeithiol erbyn 2020. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Awst 2017 | **Rheoli asedau**<br>Adolygiad i ystyried y graddau y mae trefniadau rheoli asedau'r Cyngor yn cefnogi proses benderfynu a gwelliannau strategol ac effeithiol. | Mae'r Cyngor yn cydnabod rôl allweddol ei asedau er mwyn helpu i gyflawni ei flaenoriaethau, ond mae gwendidau yn ei Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol newydd ac yng nghyflawniad y strategaeth honno yn tanseilio ei allu i siapio dyfodol ei asedau. | Ni chyflwynwyd unrhyw argymhellion na chynigion penodol gennym ar gyfer gwella, ond nodwyd y byddem yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd Bwrdd Gwella Busnes y Cyngor yn rhan o'n gwaith i archwilio perfformiad lleol yn 2017-18. |
| Awst 2017 | **Diagnosteg risg ddigidol**<br>Adolygiad er mwyn canfod risgiau a phroblemau digidol 'posib' yn y Cyngor. | Mae gan y Cyngor amrywiaeth o bolisïau, cynlluniau a phrosesau yn gysylltiedig â Thechnoleg a Rheoli Gwybodaeth (TaRhG), ond nid oes ganddo strategaeth ddigidol drosfwaol i ysgogi ei weithgareddau. | Ni chyflwynwyd unrhyw argymhellion na chynigion penodol gennym ar gyfer gwella, ond nodwyd y byddwn yn ystyried cyflawni gwaith mwy penodol, gan ganolbwyntio ar un neu fwy o'r meysydd canlynol yn rhan o'n rhaglen barhaus i archwilio perfformiad:<br>• cynnal archwiliad llawnach o ymagwedd y Cyngor at dechnoleg ddigidol a thechnoleg gwybodaeth ar ôl iddo wneud penderfyniad ynghylch ymuno â'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau yn yr hydref;<br>• Cydnerthedd TaRhG (parhad busnes TG, adfer wedi trychineb a threfniadau wrth gefn); a<br>• Diogelwch gwybodaeth a seiberddiogelwch. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | |
| Mehefin 2016 | **Archwiliad cynllun gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella. | Dim |
| Tachwedd 2016 | **Asesiad archwilio perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig y Cyngor o'i berfformiad. | Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliannau. | Dim |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | |
| Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau gan gyrff arolygu na rheoleiddio yn ystod y cyfnod a drafodir yn yr adroddiad hwn. | | | |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae’n ofynnol i’r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych tua'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir fel cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i ‘wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau’.

Yn yr asesiad o welliant blynyddol, ystyrir pa mor debygol yw hi y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy’n galluogi’r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Staff Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llunio'r adroddiad gwella blynyddol, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 o'r Mesur, drwy roi crynodeb o'i waith asesu ac archwilio mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod. Mae’r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19, sef cyflwyno adroddiad sy’n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o’r farn (o ganlyniad i’w archwiliad o’r cynllun gwella o dan adran 17) fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i’r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy’n ofynnol o dan adran 23), sy’n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr Chris Burns
Y Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

22 Tachwedd 2016

Annwyl Mr Burns

## Llythyr Archwilio Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2015-16

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon a oedd yn deillio o'n cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a'n cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â’r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi’n ofynnol i ni:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau’r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau ein bod wedi cwblhau’r gwaith o archwilio’r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae’r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2016 cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae ein hadroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

Cafodd y prif faterion a ddeilliai o'm harchwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 14 Medi 2016. Dyma grynodeb o'r eitemau o bwys:

- nid oedd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, nad oeddent wedi'u cywiro.
- yr oedd nifer o gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr. Roedd hyn yn cynnwys addasiad o £137.8 miliwn i werth Anheddau Cyngor ar ôl newid y sail brisio i'r gwerth meddiant gwag wedi'i addasu (drwy ddefnyddio egwyddor sampl).
- cyflwynwyd dau argymhelliad risg uchel hefyd. Argymhellwyd y dylai'r Cyngor gynnal adolygiad o'r modd y mae System Asedau Logotech yn cyfrifo dibrisiant ar gyfer asedau a gaiff eu hailbrisio, oherwydd gwelwyd wrth ein gwaith fod asedau wedi'u hailbrisio yn cael eu dibrisio flwyddyn yn rhy fuan yn sgil y defnydd anghywir o 'Oes Economaidd Ddefnyddiol' ar ôl ailbrisio. Argymhellwyd hefyd y dylai hen falansau dyledwyr a chredydwyr gael eu dileu a'u hepgor o'r balansau a ddygir ymlaen.

Yr ydym yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Seiliwyd ein hystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau, wrth gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyflwynwyd tystysgrif gennym yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2016.

Hyd yma, ni nodwyd unrhyw faterion o bwys yn ein gwaith ardystio hawliadau a ffurflenni grant a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2016-17 neu ar systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar fy gwaith ardystio grantiau yn dilyn ym mis Ionawr 2017, cyn gynted ag y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 fod yn unol â’r ffi gytunedig a nodwyd yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

Grant Thornton LLP
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

### Dangosyn 3: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2016-17

Crynodeb o gynigion gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol, a gafodd eu cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ers cyhoeddi'r AGB diwethaf.

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Awst 2016 | Cydnerthedd Ariannol Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2015-16 | Yn ein hadroddiad ar gyfer 2014-15 (Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru, Ebrill 2015), gwnaed sawl argymhelliad i awdurdodau lleol. Mae llawer o'r argymhellion hyn yn parhau i fod yn berthnasol ac mae angen i awdurdodau wneud gwaith pellach i ymdrin â hwy yn ystod 2016-17. Yn ogystal â hyn, gwnaed yr argymhellion canlynol yn seiliedig ar ein hadolygiad mwy diweddar:<br>A1 Dylai awdurdodau lleol atgyfnerthu eu trefniadau cynllunio ariannol drwy:<br>• ddatblygu cysylltiadau mwy eglur rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'u cynlluniau gwasanaeth a'u blaenoriaethau corfforaethol;<br>• alinio strategaethau eraill allweddol fel cynlluniau rheoli'r gweithlu a rheoli asedau â'r CATC;<br>• datblygu cynlluniau arbed cynhwysfawr aml-flwydd ac ynddynt gostau llawn, sydd yn trafod ac yn sail ar gyfer cyfnod y CATC, nid ar gyfer y gyllideb flynyddol sydd ar ddod yn unig;<br>• rhannu cynigion arbed yn gategorïau fel bo modd monitro'r newid oddi wrth arbedion traddodiadol tuag at arbedion trawsnewidiol dros gyfnod y CATC; a<br>• sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer sicrhau arbedion penodol yn realistig, a bod atebolrwydd dros eu cyflawni wedi'i ddyrannu'n briodol.<br>A2 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu polisïau corfforaethol ar gyfer cynhyrchu incwm a chodi tâl.<br>A3 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cronfeydd wrth gefn, sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig, ac effaith y rhain a'r defnydd ohonynt yn y CATC.<br>A4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro'r CATC.<br>A5 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cynlluniau arbed yn cynnwys digon o fanylion er mwyn sicrhau bod aelodau'n deall yn glir yr hyn y bwriedir ei gyflawni drwy'r cynlluniau, a bod modd craffu'n briodol ar y cynlluniau hynny drwy gydol y flwyddyn.<br>A6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod digon o gapasiti a gallu corfforaethol i gefnogi cyflawniad y cynlluniau arbed yn y CATC ar y cyflymder angenrheidiol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2016 | Diogelwch Cymunedol yng Nghymru | Roedd angen i amrywiaeth o randdeiliaid - sef Llywodraeth Cymru, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru, comisiynwyr yr heddlu a throseddu, aelodau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ac awdurdodau lleol - gymryd camau unigol ac ar y cyd er mwyn ymateb i'r saith argymhelliad yn yr adroddiad hwn:<br>A1 Gwella gwaith cynllunio strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch ar gyfer diogelwch cymunedol yn well drwy gyflwyno strategaeth genedlaethol i ddisodli'r fframwaith cynllunio presennol, a chefnogi hynny â chynlluniau lleol a rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol cytunedig o ran diogelwch cymunedol.<br>A2 Gwella gwaith partneriaeth strategol drwy greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn ffurfiol i ddisodli strwythurau diogelwch cymunedol presennol. Dylai'r byrddau newydd hyn ffurfioli a chyfuno gwaith Llywodraeth Cymru, heddluoedd, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br>A3 Gwella gwaith cynllunio drwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy'n trafod gwaith yr holl bartneriaid, ac yn nodi'n glir sut y gellir cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol, yn lleol ac yn rhanbarthol.<br>A4 Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu grantiau a symud tuag at gyllidebau cyfun ac iddynt ymrwymiadau ariannu tymor hwy er mwyn helpu cyrff cyflawni i wella gwaith cynllunio prosiectau a'r gweithlu gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol.<br>A5 Sicrhau bod perfformiad o ran diogelwch cymunedol yn cael ei reoli’n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol ar bob lefel i alluogi aelodau, swyddogion a’r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu.<br>A6 Diwygio'r systemau ar gyfer rheoli diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy'n canolbwyntio ar roi sicrwydd i'r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn creu canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.<br>A7 Gwella'r dull o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion drwy fyrddau gwasanaeth cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso effaith. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2016 | Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm | Gwnaed wyth argymhelliad yr adroddiad hwn, yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu ynghylch chwech ohonynt. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru weithredu ynghylch Argymhellion A4 ac A6:<br>A1 Datblygu fframweithiau strategol ar gyfer cyflwyno ac adolygu taliadau, gan greu cysylltiad pendant rhyngddynt â'r CATC a'r Cynllun Corfforaethol.<br>A2 Adolygu'r costau fesul uned a chyfanswm y gost o ddarparu gwasanaethau dewisol er mwyn nodi unrhyw ddiffygion yn glir a, lle bo angen, gosod targedau i wella'r sefyllfa weithredu gyfredol.<br>A3 Defnyddio'r rhestr wirio asesu effaith bob tro wrth ystyried newid taliadau.<br>A5 Canfod cyfleoedd i gaffael cwmnïau o'r sector preifat i gasglu taliadau, er mwyn gwella effeithlonrwydd a darbodusrwydd wrth gasglu incwm.<br>A7 Gwella'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, llywodraethu ac atebolrwydd drwy:<br>• adrodd unrhyw newidiadau i daliadau i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• gwella gwaith monitro er mwyn cael dealltwriaeth well o effaith newidiadau i ffioedd a thaliadau ar alwad, a chyflawniad amcanion;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill yn fwy trwyadl; a<br>• darparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso penderfyniadau cadarn.<br>A8 Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagweld incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddi sensitifrwydd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2017 | Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector | Gwnaed tri argymhelliad yn yr adroddiad hwn, yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu ynghylch dau ohonynt. Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithredu ynghylch Argymhelliad A3:<br>A1 Er mwyn cael y gorau o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i gefnogi eu gwaith â'r trydydd sector. Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a chyrff y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, argymhellir y dylai swyddogion awdurdod lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol i:<br>• hunanwerthuso ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arferion cyfredol o ran y trydydd sector;<br>• canfod lle mae angen gwella'r trefniadau cydweithio; a<br>• drafftio a rhoi cynllun gweithredu ar waith ar y cyd er mwyn ymdrin â'r bylchau a'r gwendidau a welwyd wrth hunanwerthuso.<br>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael yn gwanio atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu'n effeithiol ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector. Er mwyn atgyfnerthu'r oruchwyliaeth dros y trydydd sector, argymhellir y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygu a gwblhawyd gan swyddogion, a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol yn rheolaidd wrth ymateb i fylchau a gwendidau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru